# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 4 Rhagfyr 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

# 175(v5)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Mae'r Llywydd wedi cael gwybod, o dan Reol Sefydlog 12.58, y bydd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip yn ateb cwestiynau ar ran y Prif Weinidog.

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Dadl ar y Cytundeb Ymadael â'r UE a'r Datganiad Gwleidyddol

(120 munud)

**NDM6889** - Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol y cytunwyd arnynt gan y Cyngor Ewropeaidd a Llywodraeth y DU, ond yn siomedig nad yw Cymru na'r Alban yn cael eu crybwyll yn unrhyw un o'r dogfennau.

2. Yn nodi'n benodol y trefniadau ar gyfer diogelu hawliau dinasyddion ac ar gyfer cyfnod pontio y mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau'n gyson drosto ac a fyddai'n osgoi'r canlyniad trychinebus lle na cheir cytundeb ym mis Mawrth 2019.

3. Yn nodi y bydd gan y Cynulliad gyfle arall i drafod y Cytundeb Ymadael wrth iddo ystyried a fydd yn rhoi ei gydsyniad deddfwriaethol ai peidio i Fil y Cytundeb Ymadael y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei gyflwyno.

4. Yn credu nad yw'r berthynas yn y dyfodol fel y'i rhagwelir gan y Datganiad Gwleidyddol yn bodloni'r model ar gyfer y berthynas rhwng y DU / EU yn y dyfodol a nodir yn Diogelu Dyfodol Cymru, sydd wedi cael ei gefnogi'n gyson gan y Cynulliad ac nad yw'n rhoi sicrwydd cadarn mewn perthynas â hawliau gweithwyr, hawliau dynol a deddfwriaeth yn ymwneud â chydraddoldeb yn y dyfodol.

5. Yn nodi bod llinellau coch Llywodraeth y DU wedi cyfyngu ar gwmpas y cytundeb dros dro y cytunwyd arno â'r UE ac yn credu y dylai Llywodraeth y DU ganolbwyntio'n hytrach ar ddiogelu perthynas hirdymor sy'n darparu fel bod modd cymryd rhan yn y farchnad sengl ac mewn undeb tollau, gan geisio ymestyn Erthygl 50 os bydd angen.

6. Yn credu y dylai Llywodraeth y DU ddatgan yn awr ei bwriad i negodi ar y sail honno ac os yw'n methu â gwneud hynny, dylid naill ai cynnal Etholiad Cyffredinol neu bleidlais gyhoeddus i benderfynu ar y telerau ar gyfer ymadawiad y DU, neu a ydy'n dymuno aros.

Y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol *(Saesneg yn unig)*
Diogelu Dyfodol Cymru

**Dogfen Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Gareth Bennett (Canol De Cymru)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod pobl wedi pleidleisio drwy fwyafrif ar 23 Mehefin 2016 heb unrhyw amwysedd, neu gyfyngiad, i adael yr UE, ac yn credu y dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru anrhydeddu ysbryd a llythyren y penderfyniad hwnnw.

2. Yn credu bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi rhwystro dymuniadau y 17.4 miliwn o bobl a bleidleisiodd i ymadael.

3. Yn credu bod cytundeb ymadael drafft Llywodraeth y DU yn ildiad, sy'n negyddu canlyniad y refferendwm yn sylweddol, gan gadw'r DU yn undeb tollau'r UE am gyfnod amhenodol ac, i bob pwrpas, yn y farchnad sengl, gan ein hamddifadu o unrhyw lais ffurfiol neu bleidlais ym mhenderfyniadau'r UE.

4. Yn galw ar y DU a Llywodraeth Cymru i gofleidio adfer sofraniaeth genedlaethol Prydain y tu allan i'r UE a'r cyfleoedd byd-eang i fasnachu â gweddill y byd.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2** - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu pwyntiau 1-5 a rhoi yn eu lle:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn gwrthod y cytundeb ymadael a'r datganiad gwleidyddol am y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol a gytunwyd gan y Cyngor Ewropeaidd a Llywodraeth y DU.

Yn credu nad yw'r berthynas yn y dyfodol fel y'i rhagwelir gan y datganiad gwleidyddol yn mynd mor bell â'r model ar gyfer perthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol a nodwyd yn 'Diogelu Dyfodol Cymru', sy'n darparu gwarantau cadarn mewn perthynas â hawliau gweithwyr, hawliau dynol, deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dinasyddion.

Yn nodi bod dadansoddiad economaidd hirdymor Llywodraeth y DU yn rhagweld y bydd economi'r DU yn gwaethygu 3.9 y cant dros 15 mlynedd o dan y cytundeb ymadael a'r datganiad gwleidyddol presennol.

Yn galw ar Lywodraeth y DU i geisio aelodaeth y DU o'r farchnad sengl Ewropeaidd a'r undeb tollau.

Yn galw am estyniad i'r broses ar gyfer erthygl 50.

**Gwelliant 3** - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu pwynt 6 a rhoi yn ei le:

Yn galw am bleidlais y bobl ar y cytundeb terfynol rhwng y DU a'r UE, gan gynnwys opsiwn i'r DU barhau i fod yn aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd.

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 4 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Y Bil Deddfwriaeth (Cymru)

(45 munud)

## Cynnig i drafod y 5 eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (30 munud)

## 5 Rheoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) 2018

**NDM6888** – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) 2018 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 06 Tachwedd 2018.

Memorandwm Esboniadol *(Saesneg yn unig)*
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

## 6 Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) 2018

**NDM6885** – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) 2018 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2018.

Memorandwm Esboniadol *(Saesneg yn unig)*
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

## 7 Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) 2018

**NDM6884** – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) 2018 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2018.

Memorandwm Esboniadol *(Saesneg yn unig)*
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

## 8 Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Hedfan Rhyngwladol a Llongau Morgludiant) (Cymru) 2018

**NDM6886** – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Hedfan Rhyngwladol a Morgludiant Rhyngwladol) (Cymru) 2018 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2018.

Memorandwm Esboniadol *(Saesneg yn unig)*
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

## 9 Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Cymru Net) (Cymru) 2018

**NDM6887** – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2018 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 06 Tachwedd 2018.

Memorandwm Esboniadol *(Saesneg yn unig)*
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

## 10 Dadl: Cyllideb Ddrafft 2019-20

(90 munud)

**NDM6883** - Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar 2 a 23 Hydref 2018.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig – Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu nad yw Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 yn diwallu anghenion pobl Cymru.

## 11 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2018

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 29/11/2018 i'w hateb ar 04/12/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifenyddion y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

1 OAQ53040

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am welliannau i wasanaethau cymdeithasol pobl hŷn yng Nghymru?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

2 OAQ53061

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y rôl y gall tai gwarchod ei chwarae yn y dyfodol o ran darparu tai o ansawdd uchel i bobl hŷn?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

3 OAQ53033

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr amserlen ar gyfer gwneud penderfyniad ar ffordd liniaru'r M4?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

4 OAQ53051

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adfywio canol tref Pontypridd?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

5 OAQ53064

**(w)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o lwyddiannau'r gwasanaeth iechyd yng Ngogledd Cymru ers 2009?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

6 OAQ53028

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y bydd y Comisiwn Gwaith Teg yn cyfrannu at gyfleoedd cyflogaeth gwell yng Nghymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**7** OAQ53063

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi datblygu economaidd yng Nghonwy?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

**8** OAQ53031

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am berfformiad y GIG yng Nghymru yn ystod ei gyfnod yn ei swydd?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

**9** OAQ53027

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyfodol llywodraeth leol yng Nghymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

**10** OAQ53062

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog esbonio pam nad oes cyllid wedi'i ddyrannu hyd yma i fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus fel ffordd o fynd i'r afael â'r tagfeydd ar yr M4 o amgylch Casnewydd?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

**11** OAQ53060

**(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu lles ac iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

**12** OAQ53042

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am amseroedd ymateb ambiwlansys yng Ngorllewin De Cymru?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

**13** OAQ53023

**(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i leihau'r pwysau ar feddygon teulu yng Nghymru'r gaeaf hwn?